



Templed ar gyfer Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

Teitl / Darn o waith:	Safonau'r Gymraeg - Sector Iechyd
Rhif SF / LF cysylltiedig (os yw'n berthnasol)	Gosod Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018
Enw'r Swyddog:	Eleri Davies
Adran:	Uned y Gymraeg
Dyddiad:	18/10/2017
Llofnod:	

Chwe Cham at Sylw Dyledus



Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

Creodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") system newydd Safonau'r Gymraeg. Bydd y Safonau yn disodli Cynlluniau Iaith Gymraeg a ddatblygwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a bydd yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") i osod delytswyddau ar gyrrff. Dechreuodd y broses hon o ddisodli Cynlluniau Iaith Gymraeg ym Mawrth 2015 pan gyflwynwyd y set gyntaf o Reoliadau (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015) i Weinidogion Cymru, Llywodraeth Leol a Pharciau Cenedlaethol. Gosododd y set gyntaf o Reoliadau y strwythur a'r cyfeiriad polisi cychwynnol ar gyfer y Rheoliadau dilynol (Rhifau 2, 4,5,a 6). Yn ogystal, mae Rheoliadau (Rhif 1) yn sail i'r Rheoliadau hyn, Rheoliadau (Rhif 7). Oherwydd y gwahaniaethau rhwng y gwasanaethau a'r modd y maent yn cael eu cyflenwi gan gyrrff yn Rheoliadau (Rhif 1, 2,4,5 a 6) a'r cyrrff yn Rheoliadau (Rhif 7) mae'r Rheoliadau newydd yn wahanol iawn i'r rheini sydd eisoes mewn grym er mwyn darparu ar gyfer y gwahaniaethau hyn.

Mae pob un o'r Rheoliadau a ddrafftwyd gan Lywodraeth Cymru yn anelu at:

- Wella'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg y gall bobl (o bob oedran) ddisgwyl eu derbyn gan gyrrff.
- Cynyddu defnydd pobl o wasanaethau cyfrwng Cymraeg.
- Ei gwneud yn glir i gyrrff yr hyn mae agen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg
- Sicrhau cysondeb priodol o ran y dyletswyddau a roddir ar gyrrff sydd yn yr un sector

Mae'r Rheoliadau yn pennu ystod o safonau y gellir eu gosod ar gorff ond mater i'r Comisiynydd fydd dewis pa safonau i'w gosod ar bob sefydliad drwy Hysbysiad Cydymffurfio. Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio hefyd yn pennu'r dyddiad y mae'n ofynnol i'r corff gydymffurfio â'r safonau y mae'r Comisiynydd am osod arnynt. Mae gan y corff o leiaf 6 mis o'r dyddiad y mae'r Comisiynydd yn rhoi Hysbysiad Cydymffurfio cyn bod rhaid iddo gydymffurfio â safon benodedig. Os daw'r Comisiynydd i'r casgliad, ar ôl ymgynghori â'r corff, bod angen rhoi mwy o amser, gall y Comisiynydd roi cyfnod cydymffurfio hirach i'r corff.

Roedd y cyrrff a'r grwpiau o gyrrff a enwir yn y Rheoliadau arfaethedig yn rhan o Ymchwiliad Safonau'r Comisiynydd a gynhalwyd rhwng 17/11/2014 a 6/2/2015¹. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn dros 13 wythnos o fis Gorffennaf 2016 ar set ddrafft o'r Rheoliadau. Mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r Rheoliadau drafft sydd wedi'u hymgorffori yn Rheoliadau (Rhif 7) arfaethedig.

Mae CRIA ar wahân wedi'u paratoi a'u gosod ar gyfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (1,2,4,5,6). Mae'r CRIA hwn ar gyfer Rheoliadau (No.7) yn unig. Nodir y bydd y Rheoliadau arfaethedig yn effeithio ar blant sy'n siarad Cymraeg drwy gynyddu eu hawliau i gyfathrebu yn eu mamiaith (neu i ddewis defnyddio'r Gymraeg) i gyfathrebu â'r cyrrff a enwir yn Atodlen 6 o'r Rheoliadau arfaethedig.

¹<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Publications%20List/20150529%20AD%20S%20Adroddiad%20Safonau%20Llywodraeth%20Leol.pdf>

Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Mae swyddogion wedi cynnal ymchwiliad polisi trylwyr er mwyn drafftio safonau sy'n cyflawni'r amcanion polisi (a amlinellir yng ngham 1) ac i sicrhau bod y Rheoliadau drafft yn rhesymol ac yn gymesur i'r cyrff a'r grwpiau o gyrff a enwir yn y Rheoliadau.

Bydd y Rheoliadau'n cael effaith ar siaradwyr Cymraeg o bob oedran drwy roi hawliau clir a gorfodadwy iddynt i fedru defnyddio'r Gymraeg. Mae'r effaith fwyaf a'r blant a phobl ifanc yn debygol o ddeillio o'r safonau cyflenwi gwasanaethau yn y Rheoliadau arfaethedig. Yn gynnar yn y broses o ddatblygu polisi, cyfeiriwyd at *Mwy na geiriau... Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016 - 2019*². Mae'r Fframwaith Strategol yn nodi plant a phobl ifanc fel grŵp o bobl sydd â mwy o angen cael gwasanaethau yn Gymraeg oherwydd ei bod yn bosibl bod nifer o blant sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig plant ifanc, yn siarad Cymraeg yn unig. Bydd y Rheoliadau arfaethedig yn rhoi hawliau newydd i blant a phobl ifanc yn ymwneud â'r Gymraeg yn y sector iechyd.

Mae'r hawliau yn y Rheoliadau arfaethedig wedi'u cryfhau'n ymhellach gan y broses gwyno a'r opsiynau gorfodi sydd ar gael i'r Comisiynydd ar gyfer achosion o fethu â chydymffurfio, fel yr amlinellir ym Mesur 2011. Yn ogystal, mae hawliau plant a phobl ifanc (a'r cyhoedd) wedi'u cryfhau gan y broses apelio i Dribiwnlys y Gymraeg os nad yw'r achwynydd yn cytuno â phenderfyniad y Comisiynydd.

Yn yr un modd â phob set arall o Rheoliadau sy'n creu safonau'r Gymraeg, y Comisiynydd yn unig sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth cyrff â'r safonau yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a roddwyd iddynt gan y Comisiynydd. Gall arolygon defnydd iaith a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ddangos a yw'r Rheoliadau wedi cyflawni'r amcanion a nodwyd ai peidio.

Fel y nodwyd uchod, mae'r Rheoliadau drafft wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn am gyfnod o 13 wythnos. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei deall o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb, a thynwyd sylw cyrff sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc at yr ymgynghoriad a'u gwahodd i'r ddau ddigwyddiad ymgynghori cyhoeddus.

Ystyriwyd yr ymatebion dderbyniwyd i'r ddogfen hawdd ei ddeall ar y cyd â'r ymatebion eraill, a chadwyd anghenion plant a phobl ifanc mewn cof wrth ddiwygio'r Rheoliadau. Yn gyffredinol, bydd y Rheoliadau arfaethedig yn cynyddu hawliau plant a phobl ifanc i dderbyn gwasanaethau oddi wrth gyrff yn y sector iechyd yn Gymraeg. Mae yna hefyd ddyletswyddau penodol y gellid eu rhoi ar gyrff fydd yn fuddiol i blant a phobl ifanc. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys dyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff nodi bod claf mewnol yn dymuno siarad Cymraeg. Bydd hyn yn tynnu sylw'r staff at ddewis iaith y claf ac yn eu hannog i gyfathrebu â'r claf yn Gymraeg. Gan fod plant ifanc sy'n siarad Cymraeg yn aml yn siarad Cymraeg yn unig, bydd hyn yn eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd iddynt tra eu bod yn yr ysbyty

² <http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy>

ac yn sicrhau nad yw'r gofal a gânt yn cael ei gyfaddawdu oherwydd gwahaniaethu ar sail yr iaith maent yn ei siarad. Gall hyn hefyd helpu drwy leihau unrhyw orbyrder a straen y maent yn ei deimlo ac unrhyw bryderon sydd ganddynt am fod mewn lleoliad gofal iechyd.

Mae'r Rheoliadau arfaethedig hefyd yn cynnwys dyletswydd ar gyrff i gyhoeddi cynllun gwella yn nodi sut y byddant yn cynyddu eu gallu i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg. Yn y cynlluniau hyn, gall corff flaenoriaethu meysydd megis gwasanaethau plant a phobl ifanc neu wasanaethau iechyd meddwl mewn ymateb i'r angen a'r galw am y gwasanaethau hyn yn eu hardal.

Bydd cynyddu hawliau plant a phobl ifanc i wasanaethau gofal iechyd yn Gymraeg yn cyfrannu at gyflawni Amcan 3 Strategaeth Tlodi Plant Cymru o dan y pennawd *Lleihau anhegwch iechyd* ac yn cyfrannu at yr agenda *'gwella ansawdd yr holl wasanaethau'*, a nodir yn y strategaeth.

At hynny, drwy gynyddu hawliau plant i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â chyrff yn y sector iechyd, bydd y Rheoliadau arfaethedig yn cyfrannu tuag at wireddu'r nod 'Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Bydd y Rheoliadau arfaethedig yn rhoi hawliau cyfreithiol gorfodadwy i blant a phobl ifanc dderbyn gwasanaethau Cymraeg oddi wrth rhai cyrff yn y sector iechyd.

Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru mewn ymateb i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011³ fod *'Welsh language provision is a rights issue, relevant to several UNCRC articles'*. Parhaodd y Comisiynydd drwy ddweud bod hi'n glir bod *'link between language and identity and the way in which language influences how people see and understand the world around them, (...) every experience a child and young person has is affected by language. No (UNCRC) article can therefore be divorced from linguistic consideration'*.

Wrth ddatblygu'r polisi hwn, mae swyddogion wedi ystyried Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 sy'n rhoi mwy o effaith i CCUHP yng Nghymru. Er bod yr iaith yn rhan anatod o'r broses o arfer nifer o'r hawliau, fel y nodwyd uchod, mae'r Rheoliadau arfaethedig yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r hawliau canlynol yn benodol:

Erthygl 12: Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried (yn berthnasol yn y cyd-destun o allu dweud eich barn wrth ymwneud â chyrff yng Nghymru yn Gymraeg).

³ http://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/mi_266_-_children_s_commissioner_for_wales.pdf%20-%2026052010/mi_266_-_children_s_commissioner_for_wales-English.pdf

Erthygl 13: Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill (yn berthansol yn y cyd-destun gallu derbyn a rhannu gwybodaeth am wasanaethau rydych yn er dderbyn gan y sector iechyd yng Nghymru).

Erthygl 30: Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl neu beidio (yn berthnasol yn y cyd-destun bod y Rheoliadau arfaethedig yn rhoi hawliau cyfreithiol i bobl i ddefnyddio eu hiaith ei hunain wrth ddelio gyda chyrrff yn y sector iechyd).

Cefnogir y tair erthygl hon, ac Erthygl 30 yn benodol, yn amcanion y Mesur. Creodd y Mesur fframwaith i newid y ffordd y mae gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu fel bod siaradwyr Cymraeg yn gallu defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth greu hawliau yn y Rheoliadau arfaethedig er mwyn i blant a phobl ifanc y mae'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg gael y dewis hwnnw wedi'i nodi os ydynt yn glaf mewnol mewn ysbyty. Byddai hyn yn helpu plant sy'n siarad Cymraeg i ddeall beth sy'n cael ei ddweud wrthynt tra eu bod yn aros mewn ysbyty.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau arfaethedig yn cyfrannu'n rhannol at hyrwyddo hawliau plant yn Erthygl 2 (osgoi gwahanaethu) a 3 (sicrhau bod cyrrff yn gweithio tuag at yr hyn sydd orau i'r plentyn). Bydd rhoi dyletswyddau ar gyrrff yn y sector iechyd i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ac, yn benodol, nodi ai'r Gymraeg yw dewis iaith claf mewnol, yn diogelu rhag cyfaddawdu dealltwriaeth y plentyn neu wahaniaethu yn ei erbyn ar sail yr iaith y mae'n ei siarad. Drwy wneud hyn byddant yn gweithio tuag yr hyn sydd orau ac yn fwyaf addas i'r plentyn wrth ddarparu gwasanaeth.

Un o'r esiamplau clirifaf o freguster plant a phobl ifanc wrth dderbyn gwasanaethau yn y sector iechyd yw'r gwasanaethau iechyd meddwl. Oherwydd natur y gwasanaethau hyn, mae'r iaith a ddefnyddir wrth ddarparu'r gwasanaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau ei fod addas. Am y rhewsm hwn, mae *Mwy na geiriau ... Fframwaith Strategol Olymol* Llywodraeth Cymru yn nodi bod defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl yn grŵp sy'n gweld mwy o angen gwasanaethau Cymraeg. At hynny, mae Comisiynydd Plant Cymru wedi nodi bod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a mynediad at y gwasanaethau hyn yn flaenoriaeth ar gyfer 2016 -19. Yn ogystal, mae Adroddiad Casgliadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a gyhoeddwyd ar 9 Mehefin 2016, yn argymhell sicrhau gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl.

Bydd caniatáu i blant a phobl ifanc i ddefnyddio Cymraeg pan yn ymwneud a chyrrff yn y sector iechyd yn gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau gan fod y gwasanaeth yn cydnabod dimensiwn ieithyddol y plentyn/person ifanc. Bydd hyn y wir hefyd pan fydd modd nodi dewis plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg tra eu bod yn glaf mewnol mewn ysbyty. Bydd hyn yn galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mwy effeithiol yn eu gofal fel partner cyfartal gan fod eu hanghenion ieithyddol wedi'u deall. Yn allweddol, mae'r Rheoliadau'n cynnig amddiffyniad cryfach i blant a phobl ifanc drwy gynyddu eu hawliau i dderbyn gwasanaethau gofal iechyd yn Gymraeg. Mae'r Rheoliadau arfaethedig felly'n hyrwyddo tair egwyddor sylfaenol y CCUHP: darpariaeth, diogelu a chyfranogi.

Dros amser, wrth i gyrff iechyd gynyddu eu gallu i gynnig ymgynhoriadau clinigol yn Gymraeg, bydd plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn cael eu grymuso i gymryd rhan yn eu gofal am eu bod yn deall yn well beth sy'n cael ei ddweud wrthynt.

Cam 4. Cefnogi'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Wrth roi cyngor a gwneud argymhellion i'r Gweinidog, ystyriwch:

Os caiff y Rheoliadau arfaethedig eu pasio, byddant yn ddi-os yn cael effaith bositif ar allu siaradwyr Cymraeg o bob oedran i ddefnyddio'r iaith yn eu hymwneud â chyrrff sy'n ddarostyngedig i'r safonau. Mae llawer o'r cyrrff yn gyfarwydd ag erthyglau'r CCUHP a byddai'n fuddiol iddynt sicrhau nad yw cydymffurfio â'r safonau yn tanseilio'r egwyddorion yn yr erthyglau hynny. Nid oes unrhyw wrthdaro wedi'i nodi rhwng y safonau arfaethedig ac erthyglau'r CCUHP ac mae'r safonau, oherwydd eu natur, yn cefnogi rhai erthyglau penodol.

Yn ogystal â gosod hawliau clir i siaradwyr Cymraeg pan fyddant yn ymwneud â chyrrff y sector iechyd, mae'r Mesur yn cyflwyno camau gorfodi i ategu Safonau'r Gymraeg y gall y Comisiynydd eu cymryd. Os bydd yr achwynydd yn anfodlon â phenderfyniad y Comisiynydd i gymryd camau gorfodi ai peidio, gall apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd i Dribiwnlys y Gymraeg. Mae hyn yn cryfhau hawliau bobl i ddefnyddio'r Gymraeg ymhellach.

Fel y nodwyd uchod, bydd y Rheoliadau arfaethedig yn darparu sail gyfreithiol i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu defnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud a rhai cyrrff yn y sector iechyd. Ar yr un pryd bydd hyn yn helpu i wireddu *Mwy na geiriau... Fframwaith Strategol Olynl ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016 – 2019* sy'n nodi bod plant a phobl ifanc yn grŵp sy'n gweld mwy o angen defnyddio'r Gymraeg yn y sector iechyd.

Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad

Cedwir cofnod ar ishare o

- Negeseuon e-bost, gohebiaeth a dogfennau'n ymwneud â'r ymchwiliad polisi ar gyfer y Rheoliadau arfaethedig a thrafodaethau rhwng swyddogion polisi a'r gwasanaeth cyfreithiol.
- Ymatebion i'r ymgynghoriad
- Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r Rheoliadau drafft wedi'u gosod gerbron y Cynlliad ym mis Chwefror 2018. Os caiff y Rheoliadau arfaethedig eu pasio, ôl hynny, y Comisiynydd fydd yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth pobl o'u hawliau yn ymwneud â'r Gymraeg a'u hannog i ofyn

am y gwasanaethau sydd ar gael a'u defnyddio. Gall y Comisiynydd hefyd gyhoeddi codau ymarfer ar rai safonau. Nid ydym yn gwybod a yw'n fwriad gan y Comisiynydd i gyhoeddi canllaw i blant a phobl ifanc ar Safonau'r Gymraeg.

Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

Cyfrifoldeb y Comisiynydd, nid swyddogion Llywodraeth Cymru, fydd monitro cydymffurfiaeth â'r safonau.

Wedi i'r Rheoliadau arfaethedig ddod i rym, os bydd angen diwygio neu ychwanegu safonau gellir eu cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyllidebau

A oes gan y darn o waith unrhyw ddyraniad o gyllid yn gysylltiedig ag ef?

Gallwch nodi faint o'r cyllid hwn a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer plant o phobl ifanc?

Mae'n bwysig, lle gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle gwnaed dyraniadau ychwanegol neu arbedion, fod hyn wedi cael ei asesu a'i brofi fel rhan o'r broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Os oes faint?

A oes yna wariant ychwanegol wedi cael ei nodi er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyfrannu at y darn o waith ac yn cael cyfle i ddweud eu dweud?


Nac oes

Rhowch unrhyw fanylion:

Monitro ac Adolygu

A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?	Adolygwyd yr asesiad yma ar ôl yr ymgynghoriad yn 2016. Cyfrifoldeb y Comisiynydd yw monitro gweithredu'r safonau i'r dyfodol.
Os yn berthnasol: gosodwch y dyddiad adolygu	

Anfonwch gopi o'r Asesiad hwn at cria@cymru.gsi.gov.uk at ddibenion monitro.





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gyfundeb rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant o dan 18 oed. Ar 16 Rhagfyr 1991, cytunodd Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ffurfiol i sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn cael yr holl hawliau fel y'u rhestrwyd yn y confensiwn.

Cafodd 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' gefnogaeth unfrydol ar draws y pleidiau pan basiwyd ef yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Ionawr 2011. Cafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 16 Mawrth 2011 a daeth i rym ar 16 Mai 2011.

Mae'n rhoi dyletswydd ar Weiridogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sydd yn yr CCUHP a'i brotocolau dewisol.

Mae 54 o erthyglau yn y confensiwn. Mae Erthyglau 43-54 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bob plentyn hawl i'w hawliau. Mae'r wybodaeth a ger yma yn ymddir ag erthyglau 1-42 sy'n cyflwyno sut y dylai plant gael eu trin.

I gael rhagor o wybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ewch i:
Wefan CCUHP Llywodraeth Cymru:
www.cuhpgwneudpethauniawn.co.uk

Clic - y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol i Bobl Ifanc:
www.cliconline.co.uk/cym/newyddion

Gellir gweld 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' yn:
<http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents>

CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

www.cuhpgwneudpethauniawn.co.uk

Erthygl 1

Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.

Erthygl 2

Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei greffydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddoluedd a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

Erthygl 3

Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 4

Dylai llywodraeth ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

Erthygl 5

Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dylu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol.

Erthygl 6

Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

Erthygl 7

Mae gan bob plentyn hawl i ennw a gofrestrwyd yn gyfreithiol, hawl i genedligrwydd a hawl i adnabod ei rieni ac, i'r graddau sy'n bosibl, i dderbyn gofal ganddyn.

Erthygl 8

Dylai llywodraethau barchu hawl plant i ennw, cenedligrwydd a chymerau teulu.

Erthygl 9

Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni ond yw hyn er eu lles nhw'u hunain, er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu'n esgeuloso plentyn. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, oni fyddai hyn yn niweidio'r plentyn.

Erthygl 10

Dylai teuluoedd sy'n byw mewn gwledydd gwahanol gael yr hawl i symud rhwng y gwledydd hynny fel y gall y rhieni a'r plant gadw mewn cysylltiad neu ddoed at ei gilydd fel teulu.

Erthygl 11

Dylai llywodraethau gymryd camau i gadw plant rhag cael eu cymryd allan o'u gwledydd nhw'u hunain yn anghyfreithlon.

Erthygl 12

Mae gan blant yr hawl i ddoluedd eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddiogwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effaithio arny nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

Erthygl 13

Mae gan blant yr hawl i gael a rhanu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidio iddyn nhw ac i eraill.

Erthygl 14

Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredau'r hyn a fynnant ac i arfer eu crefydd, cyfiyd ag nad ydynt yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Dylai rhieni arwain eu plant yn y materion hyn.

Erthygl 15

Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, ond yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

Erthygl 16

Mae gan blant yr hawl i breifatwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu herw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.

Erthygl 17

Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niweidio plant.

Erthygl 18

Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn erwedg os yw'r ddau riant yn gweithio.

Erthygl 19

Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu holl.

Erthygl 20

Rhaid i bob sy'n parhau eu crefydd, eu diwylliant a'u hieith edrych ar ôl plant na all eu rhieni ofalu amdanynt.

Erthygl 21

Pan fo plant yn cael eu mabwysiadu, yr ystyriaeth gyntaf yw'r hyn sydd orau iddyn nhw. Dylai'r un rheolau gael eu cymhwyso os yw'r plant yn cael eu mabwysiadu yn y wlad lle y'u ganwyd neu'n cael eu cymryd i fyw mewn gwlad arall.

Erthygl 22

Dylai plant sy'n dod i wlad fel fforduriaid gael yr un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno.

Erthygl 23

Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd lawn ac amnibynnol.

Erthygl 24

Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddwr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iiddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Erthygl 25

Dylai sefyllfa plant y mae eu hawddurdod leol yn hytrach na'u rhieni yn gofalu amdanynt gael ei hadolygu'n rheolaidd.

Erthygl 26

Dylai'r Llywodraeth roi mwya o arian ar gyfer plant teuluoedd mewn angen.

Erthygl 27

Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddiagon da i ddiwallu eu hangenion corfforol a meddygol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn.

Erthygl 28

Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai ddsyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Erthygl 29

Dylai addysg ddatblygu personolaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.

Erthygl 30

Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iath ac arferion eu teuluoedd, p'un ai yw'r rhain yn cael eu rhanu gan fwyafrif y bobl neu beidio.

Erthygl 31

Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Erthygl 32

Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag gwaith sy'n benygus neu a allai amharu ar eu hiechyd neu eu haddysg.

Erthygl 33

Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffordd o gadw plant rhag cyfluriau penygus.

Erthygl 34

Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag camdriniaeth rywoli.

Erthygl 35

Dylai'r Llywodraeth ofalu na chaff plant eu cipio neu eu gwerthu.

Erthygl 36

Dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai amharu ar eu datblygiad.

Erthygl 37

Ni ddylid trin plant sy'n torri'r gyfraith yn greulon. Ni ddylid eu rhoi mewn carchar gydag oedolion a dylid eu cadw mewn cysylltiad â'u rhieni.

Erthygl 38

Ni ddylai llywodraethau adeil i blant dan bymtheg oed ymuno â'r hyddin. Dylai plant mewn parthau rhyfel gael gwarchodaeth arbennig.

Erthygl 39

Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuloso neu eu cam-drin gael help arbennig i adfer eu hunan-bardd.

Erthygl 40

Dylai plant a gyhuddir o dom'i'r gyfraith dderbyn help cyfreithiol. Dylid defnyddio deddfyddau o garchar i blant ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig.

Erthygl 41

Os yw cyfreithiau gwlad arbennig yn gwarchod plant yn well nag erthyglau'r Confensiwn, yna dylai'r cyfreithiau hynny aros.

Erthygl 42

Dylai'r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn.